“Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;” **(Mathew 6:11)**

Dyma ddeisyfiad cwbl ymarferol yn ymwneud â’n hanghenion dyddiol, sylfaenol. Er nad yw’n dod yn gyntaf, mae Iesu’n ein dysgu i bwyso ar Dduw am anghenion corff yn ogystal ag anghenion ysbrydol.

Ysbryd a chorff

Allan o saith deisyfiad, un sy’n delio’n uniongyrchol ag anghenrhaid y corff. Serch hynny, mae’n ein hatgoffa mai Duw sy’n cyflenwi rheidiau’r corff hefyd, a bod rhaid dod â’r materion hynny ger ei fron yn ogystal ag anghenion ysbrydol fel maddeuant yn yr adnod nesaf. Roedd diwylliant Rhufeinig y cyfnod yn cynnwys dillad hefyd yn y gair ‘bara’.

Derbynwyr

Mae’r geiriau ‘dyro inni’ yn gydnabyddiaeth mai rhodd yw ein cynhaliaeth corfforol mewn gwirionedd ac nid gwobr na chyflog nag eitem i’w phrynu. Ni allwn dalu Duw ein Cynhaliwr, ond derbyn ei roddion yn ddiolchgar. Dylai hyn ein cadw rhag cybydd-dra yn ein hagwedd at eraill. Gan ein bod wedi derbyn yn rhad, dylem roi yn yr un modd.

Angenrheidiau, nid moethau

Mae bara’n awgrymu bwyd angenrheidiol, nid danteithion bywyd. Dylem weddïo, felly, am yr hyn sy’n sylfaenol ac yn rhesymol mewn bywyd. Does dim gwarant gan Iesu i geisio moethusrwydd na gormodedd. Os yw Duw yn caniatáu mwy na’r angenrheidiau, rhaid i ni fod yn gyfrifol yn ein ffordd o drin ein digonedd.

Mae cofio arweiniad Iesu yn y weddi yma’n help i ni gwestiynu’n deisyfiadau tymhorol yn gyffredinol. Gallwn ofyn ynglŷn ag unrhyw beth materol: Ydy hwn yn hanfodol, yn rhesymol, yn help i anrhydeddu Duw? Ydw i’n ceisio hyn am reswm hunanol, neu o drachwant neu falchder? Ydy hyn yn esiampl wael i eraill?

Mae bara’n rhoi egni at fywyd a gwaith. Mae hynny eto’n arweiniad i ni yn ein gweddïau. Dylem weddïo am bethau ymarferol i’n nerthu ac i’n galluogi’n well i wasanaethu Duw yn y byd. Dydy bara ddim yn fwyd crand nac yn creu sioe fawr; ac ni ddylem geisio pethau er mwyn creu argraff neu ddelwedd arbennig gerbron eraill.

Dibyniaeth

Mae bara yn ein hatgoffa o’n gwendid a’n breuder a’n dibyniaeth ar Dduw. Yn nyddiau Crist, doedd dim rhewgell nac oergell na modd i gadw bwyd yn hir fel

y gwnawn heddiw. Doedd bara fory ddim mor hawdd i'w gymryd yn ganiataol. Roedd y cnwd yn dibynnu ar y tywydd, a doedd dim gwarant o gynhaeaf digonol bob blwyddyn.

Dylai hyn ein cadw rhag ymffrost a balchder, gan mai creaduriaid dibynnol ydym. Mae angen gweddïo am y pethau sylfaenol, gan gynnwys incwm a gwaith, a dylai hynny'n gwarchod rhag bod yn farus a balch.

Beunyddiol

Dim ond yng Ngweddi'r Arglwydd mae'r gair Groeg a gyfieithir 'beunyddiol' yn digwydd yn y Testament Newydd. Mae naill ai'n golygu 'o ddydd i ddydd' neu 'ar gyfer y dydd presennol'. Mae'r gair yn cadw'n meddwl ar y tymor byr, felly. Dylai hyn ein cadw rhag y tueddiad i or-ddarparu ar gyfer ein hunain, ac i fod â gormod o ofal dros gyfeiriad penodol ein bywyd a'n diogelwch i'r dyfodol pell.

Mae lle i ddarparu ar gyfer y dyfodol, wrth gwrs, lle mae hynny'n bosibl, ond nid yn ormodol. Rhaid inni geisio cadw'r balans rhwng buddsoddi yng ngwaith yr Efengyl a'r Deyrnas a darpariaeth ar gyfer y dyfodol. Bywyd o ymddiriedaeth yn Nuw yw bywyd y Cristion, wedi'r cyfan.

Dydym ni ddim i fod i deimlo'n gwbl ddiogel ynom ni'n hunain yn y byd hwn, oherwydd dyw hynny ddim yn ffaith. Rŷn ni'n ddibynnol ar Dduw ac yn byw mewn byd all newid unrhyw funud.

Diolchgarwch

Gall fod yn anodd i ni weddïo'r weddi hon o ddifrif oherwydd ein digonedd cymharol yn ein rhan ni o'r byd. Gall fod yn anodd gweld yr angen i yngan y weddi hyd yn oed. Ddylai hyn ddim ein hatal rhag diolch i Dduw am ddigonedd o angenrheidiau ar hyn o bryd. Dylai'n diolch fod yn gymysg â rhyfeddod na fu angen i ni weddïo heb wybod i sicrwydd a fyddai gennym ddigon ar gyfer y dydd.

Iechyd a nerth

Mae anghenion corfforol yn cynnwys nerth ac iechyd. Dylem sylweddoli pa mor hawdd y gallwn golli'r rhain unrhyw bryd. Dylem geisio'r iechyd a'r nerth digonol i weithio a chymryd rhan ym mywyd ein teulu, ein heglwys a'n cymdeithas.

Bara'r Bywyd

Defnyddiodd Iesu fara fel symbol o fwyd ysbrydol i fywyd ysbrydol. Mae'r bara corfforol sy'n cael ei roi inni yn symbol o Grist a'r iachawdwriaeth a roddwyd o'r nef. Fel mae'n rhaid cynaeafu, melino a phobi bara, rhaid ceisio Duw, rhaid edifarhau, er mwyn dod i brofiad o'i ras a'r bywyd helaethach y daeth Crist i'w roi i ni.